

CYN- FYFYRWYR CBCDC

CYLCHLYTHYR
GAEAF
2019



70
1949 - 2019

ROYAL WELSH COLLEGE
OF MUSIC & DRAMA
COLEG BRENHINOL
CERDD A DRAMA CYMRU

rwcmd.ac.uk/alumni

CRYNODEB O NEWYDDION CBCDC



Y DELYNORES FRENHINOL

Roedd gan Alis Huws ddigon i'w ddathlu ym mis Gorffennaf eleni. Nid yn unig iddi raddio o'r Coleg gyda Gradd Meistr ond cyhoeddwyd hefyd mai hi fydd y Delynores Frenhinol Swyddogol. Adfywiodd y Tywysog Charles y traddodiad o gael Telynores Frenhinol/Telynor Brenhinol yn 2000 er mwyn meithrin talent o Gymru ar y delyn, ein hofferyn cenedlaethol.

Mae Alis wedi hen arfer â chwarae i'r teulu Brenhinol, gan ei bod eisoes wedi perfformio iddynt nifer o weithiau. Ymhlith ei pherfformiadau proffil uchel mae chwarae'n rheolaidd mewn digwyddiadau ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru, perfformio ledled Ewrop a'r Dwyrain Canol ac ymuno â Katherine Jenkins ac Only Men Aloud i ddathlu Rownd Derfynol Cwpan Pencampwyr UEFA yng Nghaerdydd.

Wrth sôn am ei phenodiad, meddai Alis: "Mae'n anrhydedd ac yn fraint i gael y cyfle unigryw hwn. Rwy'n angerddol ynglŷn â'm treftadaeth Gymreig a gobeithiaf ddefnyddio'r llwyfan hwn i fod yn llysgennad dros ein hiaith, ein cerddoriaeth a'n diwylliant."

Llun gan Catrin Arwel.

AELODAU CYSWLLT DRAMA ANRHYDEDDUS CBCDC

Mae cynllun Aelodau Cyswllt CBCDC yn dathlu cyflawniadau graddedigion diweddar yn gynnar yn y gyrfaoedd maent wedi'u dewis.

Llynedd gwnaethom gydnabod cynfyfyrwyr Cerddoriaeth ac eleni rydym yn ein cynfyfyrwyr Drama sy'n cael y sylw - o actio ar y llwyfan a'r sgrin i reoli llwyfan ar gyfer cynrychiadau a gafodd glod y beirniaid i wisgo'r Spice Girls...

Llongyfarchiadau i chi gyd!

Eric Abrefa
Elli Andrews
Aneurin Barnard
Tom Cullen
Rebecca Davies
Joe Fletcher
Madeline Girling
Olivia Harris
Sarah Hellicar
Arthur Hughes
Luke McCall
Francesca Moody
Amy Morgan
Ian Peniston
Sarah-Jayne Powell
Gabriella Slade
Anjana Vassan
Alex Vlahos
Ulrike Zoellner

STONDIN EFROG NEWYDD

Yn dilyn ein Gala Efrog Newydd ar gyfer Catherine Zeta-Jones ar Ddydd Gŵyl Dewi, roedd y Coleg yn ôl ym mwrlwm byd theatr America ar gyfer ei Stondin UDA flynyddol yn Theatr Signature ar 42nd Street. Mae'r digwyddiad erbyn hyn yn ei bedwaredd flwyddyn ac mae'n gweithredu fel sbringfwrdd i'r diwydiant, gan roi cyfle i'n graddedigion actio a theatr gerddorol o America a Chanada berfformio gerbron asiantau, rheolwyr, cyfarwyddwr castio a gwahoddedigion o'r diwydiannau adloniant yn America.



Myfyrwyr Stondin Efrog Newydd.

CYMDEITHAS CYNFYFYRWYR

Yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf mae aelodaeth ein Cymdeithas Cynfyfyrwyr wedi tyfu i dros 1000 o aelodau. Mae wedi bod yn hyfryd i ailgysylltu a chlywed am ein hynt a'ch helynt. Ar 28 Medi ymunodd dros 200 o gynfyfyrwyr yn cynrychioli meysydd cerddoriaeth a drama, ac yn rhychwantu degawdau o'r 1960au ymlaen, am Aduniad Cynfyfyrwyr ac roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol. Byddwn yn trefnu rhagor o ddigwyddiadau dros y flwyddyn nesaf ac yn cysylltu â chi'n fuan gyda'r manylion.

DA IAWN! SOME HIGHLIGHTS

RHIANNON BOYLE (1999)

Ysgrifennydd Preswyl Cymru cyntaf, wedi'i chefnogi gan y BBC a National Theatre Wales.

SIMON TRINDER (2000)

Taith y DU ac Iwerddon o *The Lion King* Disney.

RACHAEL CANNING (2001)

Cynllunydd *A Midsummers Night's Dream* yn Theatr Regents Park.

JEAN CHAN (2008)

Cynllunydd *A Midsummer Night's Dream* yn Theatr Globe.

SAMUEL BEES (2007) a KYLE LIMA (2009)

BBC Writers Rooms Welsh Voices 2018/19 a gynhaliwyd mewn partneriaeth â National Theatre Wales a Radio Drama Wales.

TOM CULLEN (2009) a JAMES NORTH (2002)

Enwebwyd ar gyfer Gwobr British Academy Cymru 2019.

FRANCESCA MOODY (2010)

Cynhyrchiydd sioeau Gŵyl Ymylol Caeredin Square Go a Baby Reindeer a Do Our Best.

LAURA TWEED (2010)

Prynwr Cynhyrchiad ar *Killing Eve*.

SOPHIE MELVILLE (2013)

Enillydd Gwobrau Caeredin The Stage 2019.

RACHEL BROWN (2014)

Dirprwy Reolwr Llwyfan ar *Harry Potter and the Cursed Child*.

PATRICK BARRETT (2015)

Cyfarwyddwr Corws Iau yng Ngherddorfa Frenhinol Genedlaethol yr Alban.

TIANYI LU (2016)

Arweinydd benywaidd preswyl Opera Cenedlaethol Cymru.

GARETH TROTT (2016)

Tiwtor pres yng Ngholeg Cerdd Llundain (Prifysgol Llundain).

EMILY ROOKE (2018)

Rhaglen animateur llais preswyl WNO.

CHARLOTTE FRY (2019)

Penodwyd yn Gynorthwydd Teithiau yn y Gerddorfa Ffilharmonig Frenhinol.

HEEJUN LIM (2019)

Penodwyd yn ddarlithydd yn yr adran arwain ym Mhrifysgol Chongqing, Seoul.

Cofiwch barhau i roi gwybod i ni beth yr ydych yn ei wneud nawr: alumni@rwcma.ac.uk



**ADUNIAD
CYNFYFYRWYR
CBCDC:
28 MEDI 2019**

LLUN GAN CLEMENT CHAN





Fiona Sinfield gyda'r Athro Helena Gaunt. Llun gan Clement Chan.

"YN 2017 DYFARNWYD IDDI FEDAL YR YMERODRAETH BRYDEINIG YN RHESTR ANRHYDEDDAU'R FLWYDDYN NEWYDD AM EI GWASANAETH ARUTHROL I ADDYSG CERDDORIAETH A'R GYMUNED YN NE LLUNDAIN."

FIONA SINFIELD

MYNYCHODD FIONA SINFIELD, NÉE INGRAM, Y COLEG RHWNG 1970-74 PAN GWBLHAODD EI LTCL MEWN PERFFORMIO AC ADDYSGU GAN ARBENIGO YM MEYSYDD Y PIANO A'R LLAIS...

Er ei bod yn hanu'n wreiddiol o Aberdaugleddau yn Sir Benfro, treuliodd y rhan helaeth o'i gyrfa yn ninas Llundain lle bu'n addysgu plant difreintiedig oedran cynradd ac uwchradd. Bu'n addysgu cerddoriaeth i blant o amrywiaeth o gefndiroedd. Yn aml ni fyddai llawer ohonynt wedi cael y cyfle i ddysgu canu'r piano, canu neu hyd yn oed chwarae'r recorder y tu allan i'r ysgol oherwydd y gost. Mae ei hagwedd benderfynol anhunanol i godi safonau ym maes addysg cerddoriaeth, yn

arbennig i ddisgyblion Cyfnodau Allweddol 1 a 2, yn arbennig o ganmoladwy gan nad oes gan ysgolion cynradd yn aml athrawon Cerddoriaeth arbenigol ymhlith eu staff llawn amser a all ddarparu addysg gerddorol o ansawdd uchel. Yn 2017 dyfarnwyd iddi Fedal yr Ymerodraeth Brydeinig yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd am ei gwasanaeth aruthrol i addysg cerddoriaeth a'r gymuned yn Ne Llundain. Ymddeolodd ym mis Gorffennaf eleni a hithau wedi addysgu cerddoriaeth am 45 o flynyddoedd ac ysbrydoli cymaint o bobl yn ystod y cyfnod hwnnw. Hoffem gyflwyno proffil o gynfyfyrwyr eraill mewn digwyddiadau yn y dyfodol. Mae gennym gymaint yr ydym am eu cydnabod a hoffem eich gwahodd i enwebu rhywun. Gallwch wneud hyn drwy e-bostio: alumni@rwcma.ac.uk.

ARDDANGOSFA DATHLU'R 70

1949-2019



Llinell amser yr arddangosfa wedi'i lleoli yn Oriel Linbury. Llinell amser atgofion ar ffurf pinfwrdd gydag atgofion wedi'u hychwanegu gan gynfyfyrwyr a staff. Lluniau gan Edmond Choo.

JUDITH DRAY (Archifydd CBCDC)
a **MANDIE GARRIGAN**
(Cynorthwydd Llyfrgell ac Archifau)

PAN DDECHREUOM FEDDWL AM GURADU ARDDANGOSFA DATHLU PEN-BLWYDD Y COLEG YN 70 OED, ROEDDEM YN TEIMLO EI BOD YN BWYSIG EI BOD YN CYFLEU YSBRYD STORI'R COLEG DROS 70 MLYNEDD EI FODOLAETH...

Gan gadw hyn mewn cof, roedd hi fel petai'n bwysig ei bod yn canolbwyntio ar y bobl – staff, myfyrwyr a chyfeillion – sydd wedi gwneud y Coleg yr hyn ydyw heddiw.

Dechreuom y broses drwy ddrافتio llinell amser o hanes y Coleg. Defnyddiom ddeunyddiau a gasglwyd o Archifau'r Coleg, a hefyd o ganlyniad i daith ymchwil i Archifau Morgannwg lle cofnodir gwybodaeth am ddechrau'r Coleg yng nghofnodion y Pwyllgor Addysg.

Ar ôl casglu'r wybodaeth ffeithiol ar gyfer y llinell amser aethom ati i gysylltu â chynfyfyrwyr er mwyn cael eu hatgofion am eu cyfnod yn y Coleg. Gwnaethom wahodd un neu ddau gynfyfyrwr o bob degawd i ddod i mewn i'r Coleg. Ar gyfer pob unigolyn gwnaethom ddewis deunydd perthnasol o'r archifau, megis lluniau a rhaglenni yr oeddent ynddynt ac ambell i brosbectws o'u cyfnod yn y Coleg. Buom yn sgwrsio â hwy a'u hannog i siarad am eu hatgofion. Gofynnem iddynt ddewis gwrthrych a oedd yn sbarduno atgofion neu a

oedd yn arbennig o ystyrlon iddynt ac egluro pam. Gwnaethom hefyd ofyn iddynt naill ai ysgrifennu eu hatgofion neu recordio stori neu atgof sy'n aros yn y cof. Mae'r atgofion llafar neu ysgrifenedig hyn yn cael eu harddangos wrth ymyl yr eitemau o'r archifau yr oeddent wedi'u dewis.

Roedd yn brofiad gwirioneddol ysbrydoledig i rannu'r archifau gyda'r cynfyfyrwyr a gyfrannodd eu storïau i'r arddangosfa a gweld potensial gwrthrychau archifol i ddefro atgofion. Roedd y storïau a adroddwyd yn aml yn ddoniol dros ben ac yn ysbrydoledig, a sylwais cymaint ohonynt a ddywedodd bod eu cyfnod yn y Coleg wedi newid eu bywyd.

Wrth gwrs, doedd dim modd cynnwys pawb ar y cam hwnnw a dyna pam ei bod yn bwysig bod yr arddangosfa'n rhyngweithiol fel bod mwy o bobl yn gallu ychwanegu eu storïau a'u hatgofion. Adeiladom binfwrdd llinell amser fel y gallai pobl ychwanegu atgofion, ffotograffau a gwrthrychau eraill o'u cyfnod yn y Coleg a hefyd creu blwch atgofion lle gallai pobl recordio eu hatgofion. Roedd hi'n hyfryd gweld y pinfwrdd yn llenwi gydag ystod eang o atgofion gan roi cyfle i ni adrodd stori fwy cyflawn o'r Coleg dros y degawdau.

Fel nifer o brosiectau, roedd hon yn broses gydweithredol. Roedd hi'n braf gallu gweithio gyda chynllunwyr yn y Coleg i greu rhywbeth hardd i dathlu hanes y Coleg. Rydym yn hynod ddiolchgar i staff a myfyrwyr yr adrannau Cynllunio ar gyfer Perfformio a Rheoli Llwyfan am eu holl waith caled. Roedd yr arddangosfa ffisegol i'w gweld rhwng 28 Medi a 4 Tachwedd. Os na lwyddoch i'w gweld, gallwch edrych ar y fersiwn ar-lein sydd i'w chael yn: <http://bit.ly/RWCMD70>

STRATEGAETH NEWYDD Y COLEG

Yn gynharach y tymor hwn, cadarnhaodd y Bwrdd Cyfarwyddwyr Strategaeth newydd y Coleg. Gan gynhyrchu rhagoriaeth greadigol, a meithrin cymuned artistig gynhwysol a rhyngwladol, byddwn

yn parhau i gynrychioli Cymru fel grym diwylliannol yn y byd, a sicrhau ein graddedigion medrus iawn yn cael dylanwad ar y diwydiannau creadigol. Byddwn yn cyflawni hyn drwy'r nodweddion canlynol:

ARBENIGOL A CHYFOES

ARBENIGOL

- + Arbenigedd medrus dros ben
- + Canolbwyntio ar y diwydiant, gweithio mewn partneriaeth, dysgu wrth weithio gyda disgybliaidau'r diwydiant
- + Barod am gyflogaeth gydol oes

CYFOES

- + Traddodiadau a repertoire sy'n bodoli yn gwasanaethu gwaith newydd: parhau'n berthnasol
- + Nawr a nesaf: edrych i'r dyfodol bob amser
- + Chwilfrydig, ymholgar, croesawu'r anhysbys; cymryd risg a'r lle i fethu yn rhan annatod o waith artistig

DYFEISGAR A CHYNHWYSOL

DYFEISGAR

- + Datrys wry problemau creadigol; chwilio am ganlyniadau gwell nag y gellid disgwyl fel unigolion a gyda'n gilydd
- + Ymarferol, cadarn, penderfynol a dygn: yn barod i weithio'n galed
- + Diwylliant llawn cefnogaeth a llawn her

CYNHWYSOL

- + Lleol a byd-eang: Cymru yn sgwrsio gyda gwledydd ledled y byd
- + Hyrwyddo llwybrau unigol amrywiol o fewn cymuned CBCDC
- + Diwylliant o barch o'r ddeutu

CYDWEITHREDOL A CHYFRIFOL

CYDWEITHREDOL

- + Archwilio potensial creadigol ensemble
- + Cydweithio a chyfnewid ystod gyfoethog o ddisgyblaethau
- + Cymuned o weithwyr proffesiynol (myfyrwyr fel gweithwyr proffesiynol ifanc; athrawon sy'n dysgu, dysgwyr sy'n addysgu)

CYFRIFOL

- + Bod yn rhan yn y darlun mwy; meddwl yn allanol; cysylltiadau byd-eang; ymwybyddiaeth
- + Ehangu gorwelion a phosibiliadau
- + Agored i heriau mawr, a hunanfeiriadau

Y COLOFNAU STRATEGOL YR ADEILADIR HYN ARNYNT YW:

1
Hyfforddiant yn canolbwyntio ar y dyfodol gyda phrofiad myfyrwyr rhagorol; wedi'i gyflwyno gan staff o'r radd flaenaf mewn cymuned gynhwysol

2
Rhaglen perfformiadau cyhoeddus flaengar (perfformio, cyfranogi, dysgu), darparu profiadau trawsnewidiol ar gyfer cymunedau amrywiol ledled Cymru

3
Safle byd-eang a phroffil rhyngwladol fel conservatoire

4
Amgylchedd ymchwil a menter integredig sy'n meithrin gwaith newydd ac arloesol ar gyfer y celfyddydau

5
Model cynaliadwy a chasgliad o arferion busnes i sicrhau sefydliad ffyniannus

ZOË SMITH

DATHLU 20 MLYNEDD O WEITHIO YN CBCDC

PWY YDYCH CHI, A BETH YW EICH RÔL YN Y COLEG?

Fi yw Zoë Smith. Ar ôl astudio Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Rhydychen hyfforddais fel cyfeilydd yn yr Academi Gerdd Frenhinol ac Academi Gerdd Frenhinol yr Alban. Wedi hynny, rydw i wedi cael gyrfa lawrydd sydd wedi mynd â mi i'r rhan fwyaf o'r conservatoires. Rydw i wedi bod yn gweithio yn y Coleg mewn ystod o rolau ers 1999: Cynorthwydd i'r Pennaeth Cerddoriaeth, Pennaeth Arfer Rhyng-ddisgyblaeth, Pennaeth Perfformio Ensemble a Phennaeth Rhaglenni Ôl-radd (Cerddoriaeth). Felly rydw i wedi gwneud popeth o drefnu cyngherddau i amserlennu i drefnu ensembles i'm rôl bresennol o redeg y cyrsiau Ôl-radd a Meistr, gyda dros 120 o fyfyrwyr yn eu dilyn.

SUT MAE'R COLEG WEDI NEWID I CHI DROS YR 20 MLYNEDD DIWETHAF?

Cyrhaeddais yma y flwyddyn y rhoddwyd cyllid premiwm i ni, gan ganiatáu i'r Coleg ddatblygu cynlluniau mwy uchelgeisiol o ran staffio a chysiau, gydag arian i danategu'r dyheadau. Rydw i wedi gweithio gyda phedwar Prifathro ac wedi gweld trawsnewidiad rhyfeddol yr ystâd ffisegol a rhannu yn natblygiad darpariaeth a chorff myfyrwyr all feddiannu ein gofodau rhyfeddol. Mae bywiogrwydd ein perfformiadau a chryfder ein cysylltiad gyda'n cymuned leol wedi newid yn llwyr. Trwy gydol yr holl ddatblygiad a'r twf hwn (mae llawer mwy o fyfyrwyr Cerddoriaeth yma nawr), mae natur gyfeillgar a chefnogol CBCDC wedi ei gynnal, sy'n peri balchder a chysur mawr.

"MAE NATUR GYFEILLGAR A CHEFNOGOL CBCDC WEDI EI GYNNAL, SY'N PERI BALCHDER A CHYSUR MAWR."

SONIWCH WRTHYM AM FYWYD Y TU ALLAN I'R COLEG?

Mae fy nheulu yn fy nghadw i'n brysur - gŵr sy'n hanu o Fecsico a dau blentyn rhyfeddol, Alex (16) a Mariana (10). Mae'r ddau yn siarad tair iaith (Sbaeneg adref a Chymraeg yn yr ysgol) sy'n rhoi pleser i mi (Sbaeneg) ac yn creu argraff arnaf (Cymraeg) ac mae'r ddau'n mwynhau canu - mae Alex yn aelod o Only Boys Aloud a Mariana gydag Only Kids Aloud; maent hefyd yn cael gwersi canu gan raddedigion CBCDC (rwy'n gwybod beth yw



Zoe Smith.

ansawdd eu hyfforddiant!) Maent yn dueddol o'm cadw ar flaen fy nhraed fel gwasanaeth tacci a chefnogwr brwd eu gweithgareddau. Pan fydd gennyf ychydig o amser rhydd byddaf yn aml wedi ymgolli mewn nofelau ditectif ar fy Kindle neu'n gwyltio sioeau coginio cystaddeuol ar y teledu (mae fy mab yn gogydd ardderchog felly rydym yn mwynhau eu dadansoddi!).

BETH FU'R UCHAFBWYNTIAU A'R I CHI?

Bu nifer fawr iawn o uchafbwyntiau, ond mae'r seremoni radio flynyddol yn fy nghyfori, yn arbennig pan fyddaf yn cael darllen enwau'r myfyrwyr ac yn cydnabod eu cyflawniadau yn y wên a rennir cyn iddynt groesi llwyfan Neuadd Dewi Sant. Rydw i wedi bod yn rhan mewn cymaint o brosiectau perfformio cyffrous iawn, ond yr un mwyaf diddorol i mi oedd rheoli'r prosiect gyda Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, gan weld ein cerddorfa myfyrwyr yn perfformio ym mhwl Theatr Donald Gordon (Canolfan Mileniwm Cymru). Uchafbwynt mawr arall yw teithio i Tsieina ar sawl achlysur er mwyn recriwtio a gyda gweithgareddau hyrwyddo Llywodraeth Cymru; mae wedi rhoi mewnwelediad diwylliannol hollbwysig i mi a'm galluogi i feithrin gwell dealltwriaeth gyda'n myfyrwyr rhyngwladol (yn ogystal â bwyta bwydydd bendedig a gweld golygfeydd rhyfeddol - nid oes dim sy'n well na hunlun ar Fur Mawr Tsieina). Rydw i wedi mwynhau'r heriau o deilwra'r ystod o raglenni gradd meistr i garfan gynyddol o fyfyrwyr, gan chwilio am ffyrdd i ddatblygu arbenigeddau a llunio cyrsiau effeithiol iawn.

BETH SYDD I DDOD?

Bues yn ddigon ffodus i gael gwahoddiad i recordio CD o repertoire unawdau piano o Gymru gyda fy nghydweithwyr arbennig yn Nhŷ Cerdd (Canolfan Cerddoriaeth Cymru) ac mae hyn wedi arwain at gyfleoedd i greu rhaglenni cyngerdd sy'n cynnwys caneuon a cherddoriaeth piano o Gymru, ac mae teithio o gwmpas yn perfformio'r rhain yn rhywbeth cyffrous. Mae hyn i gyd yn cyfrannu at fy maes ymchwil, ac rydw i yn y broses o gasglu deunyddiau ynghyd i wneud cyflwyniad ar gyfer doethuriaeth yn y blynyddoedd nesaf, sy'n gyfnod cyffrous i mi, gan ei fod yn cyfuno diddordeb gwirioneddol gyda gwaith ditectif a pherfformiad - beth all fod yn well?

DIWRNOD YM MYWYD... MYFYRWYR CERDDORIAETH

PWY YDYCH CHI, PA GYRSIAU YDYCH CHI'N EU HASTUDIO?

VERITY: Verity-Belle Atkinson ydw i ac rwy'n dilyn y cwrs gradd Meistr mewn Perfformio Llais.

CHARLOTTE: Fy enw i yw Charlotte Forfar ac rydw i ar yr un cwrs. Gwnaeth y ddwy ohonom gwblhau ein graddau mewn astudiaethau'r llais yn CBCDC ym mis Gorffennaf 2019.

SONIWCH WRTHYM AM EICH CWRS, CRYNODEB O DDIWRNOD GWAITH ARFEROL?

CHARLOTTE: Mae pob diwrnod yn wahanol. Cawn hyfforddiant mewn sgiliau megis ieithoedd (Eidaleg, Almaeneg a Ffrangeg), Symud a Drama. Cawn hefyd ddsbarthiadau Perfformio Llais, Corws y Coleg, dosbarthiadau academaidd a hyfforddiant unigol yn ogystal ag ymarfer. Bydd yna hefyd brosiectau perfformio dwys sy'n ymdrwythol iawn ac yn aml fe'u harweinig gan weithwyr proffesiynol allanol yn y diwydiant gan roi cysylltiadau gwych i ni gyda chyflogwyr y dyfodol yng Nghaerdydd a'r cyffiniau.

VERITY: Rydw i'n gweithio fel hebryngwr clyweliadau yn y Coleg a bydd Charlotte yn gweithio ym mlaen y tŷ. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i ni gydag ymrwymadau'r Coleg gan roi amser ar gyfer astudio ond ar yr un pryd yn rhoi profiad proffesiynol da i ni hefyd.

BETH YDYCH CHI'N EI WNEUD Y TU ALLAN I'CH CWRS? SUT MAE BYW YNG NGAERDYDD YN RHOI CYFLEOEDD YCHWANEGOL I CHI?

CHARLOTTE: Rydym yn ysgolorion corawl gyda Chorws y BBC ac wedi bod ers ein hail flwyddyn yn y Coleg. Cynhelir ymarferion ddwywaith yr wythnos, a hyd at bedair gwaith yr wythnos cyn perfformiadau.

VERITY: Mae perfformiadau diweddar gyda BBC NOW yn cynnwys cyngherddau rheolaidd yn Neuadd Dewi Sant yng Nghaerdydd a Neuadd Brangwyn yn Abertawe, Tymhorau Proms y BBC 2017-19 yn Neuadd Frenhinol Albert ac wedi cynnwys unawdau 'standout' yn Proms yn y Parc eleni. Mae'r ddwy ohonom hefyd yn addysgu yn Ysgol Lwyfan Stagecoach gan weithio gyda dosbarthiadau o blant 3-6 oed ar ddyddiau Sadwrn a Sul. Roeddwn i'n arfer bod yn fyfyrwr Stagecoach a chysylltais â nhw ychydig



Myfyrwyr Cerdd Verity-Belle Atkinson a Charlotte Forfar.

flynyddoedd yn ôl yn gofyn a allwn wirfoddoli mewn dosbarthiadau ac arweiniodd hynny at gael fy nghyflogi fel athrawes.

CHARLOTTE: Mae hwn yn rhywbeth rydym wedi ymrwymo'n llwyr iddo ac mae'n gofyn am waith paratoi a threfnu da i reoli ein hastudiaethau a gweithio'n effeithiol, rydym yn tueddu i edrych dymor ymlaen llaw a neilltuo amser i gynllunio gwersi a pharatoi ar gyfer asesiadau.

VERITY: Yn ystod ein cyrsiau gradd trefnodd Charlotte a minnau leoliadau yn gweithio gydag Opera Cenedlaethol Cymru a'r BBC yn cynnal gweithdai mewn ysgolion.

CHARLOTTE: Gwnaethom gymryd rhan yn y prosiect ochr yn ochr cyntaf gyda Chorws a Cherddorfa WNO (Dead Man Walking) ac o ganlyniad cawsom ein cyflogi gyda WNO ac Oasis (elusen ddielw sydd â'r nod o helpu Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches yng Nghaerdydd) mewn Prosiect Allgymorth 'Hope Has Wings' gyda chantorion a chwaraewyr WNO gan ddwyn ynghyd gymysgedd unigryw o gerddoriaeth glasurol, curiadau Affricanaidd a dylanwadau Iranaid, Jurdish, Algeraid a De Americanaidd. Rydym yn ysgolorion corawl gyda Chorws Cenedlaethol Cymru y BBC.

VERITY: Tuag at ddiwedd ein cyrsiau gradd penderfynom aros a gwneud ôl-raddau yn CBCDC. Ni roesom ystyriaeth i unman arall bryd hynny oherwydd bod gan Gaerdydd gymaint o gyfleoedd a bod CBCDC yn darparu amgylchedd mor gefnogol i fyfyrwyr yn gynnar yn eu gyrfaedd.

PA BROSIECTAU SYDD AR Y GWEILL?


Mae Corws Coleg CBCDC yn perfformio Offeren Faure gyda'r Gerddorfa Symffoni yn Neuadd Dewi Sant y mis hwn, mae Corws y BBC yn perfformio'r Meseia ym mis Rhagfyr, ac yn rhyngor y Gwanwyn bydd Myfyrwyr Llais CBCDC yn cynhyrchu perfformiad o Olygfeydd Opera.

Dewch yn aelod a chefnogi
profiadau hyfforddianta chyfleoedd
perfformio myfyrwyr



I gael rhagor o wybodaeth am ymuno â CYSWLLT,
ffoniwch 02920 391420 neu ewch i www.rwcmd.ac.uk/connect

ETIFEDDIAETH



"CEWCH Y TEIMLAD O DEULU PAN
FYDDWCH YN CERDDED I MEWN I'R
CYNTEDD... MAE PAWB YN GEFNOGOL
I BAWB ARALL. DYMA FY Ffordd i o
ROI RHYWBETH YN ÔL AM Y PLESER
YR WYF WEDI EI GAEL YMA"

CHRIS BALL, CYMYNNWR

Sgwrsiwch gyda rhywun am gefnogi
myfyrwyr CBCDC drwy adael rhodd
yn eich ewyllys, cysylltwch â:

LOUISA TURNER
02920 391420
Louisa.turner@rwcmd.ac.uk neu

MARIE WOOD
02920 391401
Marie.wood@rwcmd.ac.uk

PIGION O RAGLEN Y COLEG YN NHYMOR Y GWANWYN...



CWMNI RICHARD BURTON

Bydd carfan bresennol o actorion, cynllunwyr a rheolwyr llwyfan trydedd flwyddyn yn cyflwyno tair drama - fersiwn newydd o Tartuffe gan Molière, y ddrama rymus Motortown gan Simon Stephens a gwaith gorffwyll David Lindsay-Abaire Wonder of the World, cefnogir gan Bad Wolf.

Cwmni Richard Burton,
*Stupid F**king Bird*,
Llun gan Kirsten Mcernan.

OPERA

Bydd ein cantorion yn dod â chomedi fytholwyrdd Così Fan Tutte gan Mozart yn fyw yn Neuadd Dora Stoutzker a bydd Theatr Gerdd Cymru yn ymweld â'r Coleg am y tro cyntaf gyda Denis + Katya, sy'n archwilio ein cyfnod o gysylltiad digidol mewn cydweithrediad â'r London Sinfonietta.



Theatr Gerdd Cymru: Denis +Katya.

CERDDORFA SYMFFONI CBCDC

Bydd ein hofferynwyr yn archwilio'r gŵr tu ôl i'r gerddoriaeth yn Beethoven: Archarwr Cerddorol, cyngerdd arbennig i ysgolion yn Neuadd Dewi Sant fel rhan o ddigwyddiadau ledled y ddinas i ddathlu 250 o flynyddoedd ers geni'r cyfansoddwr.

THEATR GERDDOROL

Bydd ieuenctid a gwrthryfel yn ffrwydro i lwyfan Theatr Sherman ym mis Mawrth wrth i'n perfformwyr theatr gerddorol serennu yn y sioe gerdd roc sydd wedi'i seilio ar ddrama ddadleuol Wedekind *Spring Awakening*.

Y Sioe Gelf Wisgadwy.



CYNLLUNIO AR GYFER PERFFORMIO

Bydd y Sioe Gelf Wisgadwy bythol boblogaidd yn dychwelyd ac yn cynnwys gwisgoedd a grëwyd gan ein cynllunwyr theatr, peidiwch â cholli'r sioe ffasiynau unigryw hon o ddawns, golau a sain.

Ewch i www.rwcmd.ac.uk i weld y rhestr gyflawn o berfformiadau'r gwanwyn hwn.

CADWCH MEWN CYSYLLTIAD



Chanae Curtis yn *The Marriage of Figaro*.
Llun gan Robert Workman.

Mae llawer o fanteision ymuno â Chymdeithas y Cynfyfyrwyr. Yn ogystal â'ch cynorthwyo i ailgysylltu â'ch cyfoedion, rydym y cynnig ystod o wasanaethau yn cynnwys aelodaeth Llyfrgell gyda disgowntiau am hyd at 3 mlynedd wedi graddio, disgowntiau yn y swyddfa docynnau ac ar ofodau rihysio, disgowntiau aelodaeth broffesiynol.

HELPWCH NI I AILGYSYLLTU Â CHYNFYFYRWYR ERAILL DRWY RANNU GWYBODAETH AM Y GYMDEITHAS GYDA NHW: WWW.RWCMD.AC.UK/ALUMNI

ROYAL WELSH COLLEGE
OF MUSIC & DRAMA
COLEG BRENHINOL
CERDD A DRAMA CYMRU

www.rwcmd.ac.uk